swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

# Adroddiad Gweithredu

2025

oiahe.org.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Tystiolaeth gan fyfyrwyr sydd wedi defnyddio'r Cynllun | 5 |
| Blwyddyn mewn niferoedd i SDA | 6 |
| Pam roedd SDA yn bwysig yn 2025 | 7 |
| Ein strategaeth, amcanion a blaenoriaethau wedi'u hegluro | 8 |
| Blaenoriaeth 1: Ein nod oedd adolygu'n sylfaenol ein proses ar gyfer gwaith ar achosion, er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth galon y broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl ac yn canolbwyntio ar ddatrys ac unioni problemau'n effeithiol. | 9 |
| Blaenoriaeth 2: Ein nod oedd cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion. | 13 |
| Blaenoriaeth 3: Ein nod oedd gwella ansawdd ein tystiolaeth, o ran data a mewnwelediad, er mwyn gwella perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd dylanwadu. | 18 |
| Blaenoriaeth 4: Ein nod oedd cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein dull un-sefydliad a'i gryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu. | 22 |

# Rhagarweiniad

Mae ein pwrpas elusennol yn sail i'n sefydliad: hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd trwy ddarparu adolygiad annibynnol, diduedd ac arbenigol o gwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, a thrwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwn i gefnogi polisïau ac arferion tecach ar draws addysg uwch. Yn 2025, parhaodd y pwrpas hwn i arwain nid yn unig sut rydym yn gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol, ond hefyd sut rydym yn cyfrannu at y system ehangach sy'n llunio profiadau myfyrwyr.

Mae ein strategaeth yn nodi pedair blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r diben hwnnw a symud tuag at ein gweledigaeth o sector addysg uwch lle mae myfyrwyr bob amser yn cael eu trin yn deg. Mae'r Adroddiad Gweithredu hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaethom yn ystod 2025 yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein **Cynllun Gweithredu**, ar gyfer 2025, gan dynnu sylw at raglenni gwaith parhaus a mentrau a gyflwynwyd mewn ymateb i heriau a chyfleoedd newydd.

Roedd 2025 yn flwyddyn o barhad yn ogystal â newid i fyfyrwyr a darparwyr. Tynnodd llywodraeth newydd sylw pellach at brofiad myfyrwyr, cwynion a datrysiadau, yn ogystal â'r dirwedd reoleiddio ehangach. Ar yr un pryd, parhaodd y pwysau sydd wedi llunio'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gael eu teimlo'n gryf: cyfyngiadau ariannol, heriau i'r gweithlu, anghenion cynyddol myfyrwyr a disgwyliadau uwch o ran tegwch a thryloywder. Yn erbyn y cefndir hwn, gwelsom unwaith eto lefelau uchel o alw am ein gwasanaeth, gyda chynnydd parhaus yn nifer yr achosion a ddaeth i law ac arwyddion bod cynnydd pellach yn parhau i fod yn debygol.

Fe wnaethon ni ymateb yn gyflym ac yn bwrpasol. Trwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom ganolbwyntio ar wneud ein Cynllun yn hygyrch, yn amserol ac yn ymatebol i bob myfyriwr a allai elwa ohono. Addaswyd ein prosesau lle'r oedd hynny'n briodol a buddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio sy'n cynyddu effeithlonrwydd heb beryglu ansawdd nac annibyniaeth ein penderfyniadau. Fe wnaethon ni barhau i wreiddio ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant nid yn unig o ran yr hyn a wnawn, ond sut rydym yn gwneud hynny, gan gryfhau'r ffordd rydym yn cyfathrebu â myfyrwyr, adolygu hygyrchedd ein systemau, a dyfnhau cymhwysedd diwylliannol ein gweithlu.

Parhaodd ein gwaith arfer da i dyfu o ran cyrhaeddiad a chymhlethdod. Fel rhan annibynnol ond annatod o'r system reoleiddio, ehangwyd y ffyrdd y mae dysgu o gwynion yn llywio gwelliant ar draws y sector. Fe wnaethon ni ddarparu mewnwelediadau clir, dadansoddiad mwy thematig a mwy o offer ymarferol i helpu darparwyr i ddeall ble mae polisïau a phrosesau'n cefnogi tegwch, a ble nad ydyn nhw'n gwneud hynny. Parhaodd ein rhanddeiliaid i gydnabod y dylanwad hwn, a chryfhawyd ein partneriaethau ar draws y dirwedd addysg uwch i sicrhau bod tegwch i fyfyrwyr yn parhau i fod yn gyfrifoldeb a rennir.

Fe wnaethon ni hefyd ddatblygu fel sefydliad. Trwy gydol 2025 fe wnaethom fuddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n diwylliant i feithrin capasiti a gwydnwch hirdymor. Mabwysiadwyd dull mwy strategol o ddysgu a datblygu, gwella ein galluoedd digidol a data, yn ogystal â gweithio i sicrhau bod ein strwythur sefydliadol yn cefnogi cysondeb, ansawdd a gwelliant parhaus. Mae'r datblygiadau mewnol hyn yn sail i'r effaith y gallwn ei chreu yn allanol: maent yn ein galluogi i barhau i fod yn hyblyg, yn edrych tuag allan ac yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fyfyrwyr a'r sector.

Gyda'i gilydd, mae'r gwaith a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos sut rydym yn esblygu ein gwasanaeth, yn cryfhau ein dylanwad ac yn paratoi ar gyfer y dyfodol, gan barhau i fod yn gadarn yn ein pwrpas elusennol. Mae ein ffocws ar degwch, annibyniaeth a dysgu yn parhau i'n harwain wrth i ni gyfrannu at dirwedd addysg uwch sy'n gynyddol gymhleth.

# Tystiolaeth gan fyfyrwyr sydd wedi defnyddio'r Cynllun

**"Roeddwn i eisiau dweud faint rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r gofal rydych chi wedi'i gymryd gyda fy achos. Mae eich cyfathrebu wedi bod mor glir ac ystyriol drwyddo draw, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y ffordd rydych chi wedi ymdrin â phopeth"**
*Adborth gan fyfyriwr, Tachwedd 2025*

**"Roeddwn i eisiau mynegi fy niolchgarwch a'm gwerthfawrogiad diffuant am yr adolygiad o'm cwyn. Rwy'n cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud yn hyn o beth, ac rwyf mor ddiolchgar eich bod wedi cynnal yr adolygiad hwn mewn ffordd broffesiynol a threfnus iawn sydd wir yn crynhoi fy mhrofiad a pha mor anodd y mae pethau wedi bod i mi. Roedd yn ddarlleniad emosiynol iawn i mi - mae cael fy nghlywed a'm deall yn y modd hwn wedi teimlo'n bwerus ac yn gyffrous iawn. Diolch yn fawr iawn i chi."**
*Adborth gan fyfyriwr, Medi 2025*

**"[...] er eich bod efallai'n clywed hyn yn aml, rydych chi wedi bod yn achubiaeth yn yr wythnosau diwethaf hyn o'r broses gwyno hir. Mae'n rhyddhad bod gan fyfyrwyr gorff, fel SDA, a staff fel chi i gefnogi'r rhai sydd yn y tywyllwch [...]"**
*Adborth gan fyfyriwr, Ebrill 2025*

**"Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr ac yn deall yr amser a'r egni rydych chi'n ei neilltuo i gyrraedd datrysiad teg...."**
*Adborth gan fyfyriwr, Mawrth 2025*

# Blwyddyn mewn niferoedd i SDA

**4,234** Nifer y cwynion a dderbyniwyd
(Cyfanswm nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd: 5,626)

**20%** Canran y canlyniadau oedd yn ffafriol* i fyfyrwyr

**20%** Canran y cwynion 'nad oedd yn gymwys' i ni ymdrin â nhw

**1,009** Nifer y mynychwyr yn ein digwyddiadau gweminar

**3,950** Nifer y cwynion a ddatryswyd gan SDA

**50%** Canran y cwynion 'nad oedd cyfiawnhad amdanynt'

**9%** Canran y cwynion a derfynwyd neu a dynnwyd yn ôl

**62** Nifer y cwynion am wasanaeth a ddatryswyd gan SDA
(cwynion am y gwasanaeth a ddarparwyd gennym)

*Mae penderfyniadau canlyniad ffafriol yn golygu achosion lle'r oedd Cyfiawnhad amdanynt, Rhywfaint o Gyfiawnhad neu'r rhai a Setlwyd yn ôl ein Rheolau ni.

# Pam roedd SDA yn bwysig yn 2025

Mae'r gwaith a amlinellir yn yr Adroddiad Gweithredu hwn yn dangos sefydliad sydd nid yn unig yn bodloni'r gofynion a osodir arno, ond sy'n mynd ati'n weithredol i ddylanwadu ar y dirwedd lle mae'r gofynion hynny'n codi. Mewn blwyddyn a ddiffiniwyd gan bwysau cynyddol ar fyfyrwyr a darparwyr, amgylchedd polisi sy'n newid, a disgwyliadau cynyddol o ran tryloywder a thegwch, mae SDA wedi parhau i gyflawni rôl unigryw a hanfodol.

Yn ei hanfod, mae ein gwasanaeth yn darparu rhywbeth gwahanol i unrhyw ran arall o'r system addysg uwch: datrysiad annibynnol ac arbenigol i fyfyrwyr sy'n credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg. I lawer o fyfyrwyr, rydym yn cynrychioli'r cyfle olaf i gael eu profiad wedi'i adolygu gan gorff sy'n ddiduedd, yn hygyrch ac y gellir ymddiried ynddo. I ddarparwyr, mae ein penderfyniadau a'n canllawiau yn tynnu sylw at ble mae systemau'n gweithio'n dda a ble mae angen iddynt wella. Mae ein gwaith yn helpu i ddiogelu uniondeb y berthynas rhwng myfyrwyr a'u sefydliadau, perthynas sy'n hanfodol i iechyd y sector.

Mae gwerth SDA yn ymestyn ymhell y tu hwnt i achosion unigol. Trwy ein mewnwelediad, ein gwaith arfer da a'n rôl yn y fframwaith rheoleiddio ehangach, rydym yn helpu i sicrhau bod dysgu o gwynion yn cyfrannu at bolisïau gwell, prosesau tecach a phrofiadau mwy cyson i fyfyrwyr y dyfodol. Rydym mewn sefyllfa unigryw i weld nid yn unig ble mae pethau wedi mynd o chwith, ond beth allai atal problemau tebyg rhag codi eto. Mae'r persbectif hwnnw'n cael ei gydnabod fwyfwy ar draws y sector, a dyna pam mae ein dylanwad yn parhau i dyfu.

Mae'r datblygiadau a wnaethom yn 2025, gan gryfhau ein systemau digidol, dyfnhau ein hymgysylltiad â llywodraethau a rheoleiddwyr, gwella ein gwaith allgymorth, buddsoddi yn ein pobl a gwella amseroldeb ac ansawdd ein gwasanaeth, i gyd yn cefnogi un nod syml ond pwysig: sicrhau y gallwn ni gyflawni'r gwahaniaeth cadarnhaol mwyaf posibl.

Rydym yn gwybod nad yw'r pwysau sy'n wynebu addysg uwch yn debygol o leihau. Rydym hefyd yn gwybod y bydd tegwch, tryloywder a goruchwyliaeth annibynnol yn bwysicach nag erioed yn y blynyddoedd i ddod. Mae SDA wedi ymrwymo i fod yn rhan sefydlog, ddibynadwy ac adeiladol o'r dyfodol hwnnw. Mae ein hannibyniaeth yn rhoi eglurder i ni; mae ein harbenigedd yn rhoi awdurdod i ni; ac mae ein pwrpas elusennol yn ein galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig yn y pen draw: sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg, a bod y sector yn parhau i ddysgu a gwella.

Mewn amgylchedd cymhleth a newidiol, rôl SDA yw bod yn angor a chatalydd, gan osod tegwch wrth galon datrysiadau i fyfyrwyr, a hyrwyddo gwelliant ar draws y sector. Dyna pam mae ein gwaith yn bwysig, a pham y byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2025 wrth i ni edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

# Ein strategaeth, amcanion a blaenoriaethau wedi’u hegluro

Mae ein strategaeth gyffredinol yn nodi amcanion ar gyfer SDA. Ein hamcan cyntaf yw y bydd pobl yn ymddiried ynom i wneud penderfyniadau teg, i drin pawb yn gyfartal, i wella profiadau myfyrwyr, i wrando a gweithredu’n annibynnol, ac i fod yn rhesymol. Yn gysylltiedig â hyn mae’r gobaith y byddwn yn cael ein gwerthfawrogi am ein harbenigedd, ein huniondeb a’n heffeithlonrwydd.

Ein hail amcan yw creu effaith fel bod y sector yn well wrth ymdrin â chwynion a defnyddio’r hyn a ddysgwyd o gwynion a phrofiad ehangach i sicrhau gwelliannau.

Yn deillio o hyn rydym wedi blaenoriaethu pedwar maes gwaith:

1. Gwaith ar achosion
2. Ymgysylltiad â rhanddeiliaid
3. Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth
4. Datblygiad sefydliadol a diwylliannol

Mae adolygiad o’r gwaith a wnaethom mewn perthynas â’n blaenoriaethau wedi’i nodi yn y tudalennau canlynol.

## Blaenoriaeth 1:

**Ein nod oedd adolygu'n sylfaenol ein proses ar gyfer gwaith ar achosion, er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth galon y broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl ac yn canolbwyntio ar ddatrys ac unioni problemau'n effeithiol.**

Mae nifer y cwynion a ddygwyd atom wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gan gyfrannu at gynnydd sylweddol a chyson yn ein llwyth gwaith cyffredinol. Mae'r duedd hirdymor hon yn adlewyrchu'r pwysau sy'n wynebu myfyrwyr a darparwyr, a'r rôl gynyddol bwysig y mae datrysiad annibynnol yn ei chwarae yn y dirwedd addysg uwch. Mae rheoli'r twf hwn yn effeithiol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog yn 2025, ac mae'n hanfodol i gynnal gwasanaeth y mae myfyrwyr yn ymddiried ynddo, y gallant ei gyrchu'n hawdd, a'i brofi fel gwasanaeth teg ac ymatebol.

Yn 2025 cawsom 4,275 o gwynion, y nifer uchaf yn ein hanes, oedd yn gynnydd o 18% o'i gymharu â 2024. Roedd hyn yn barhad o'r patrwm o gynnydd dros y saith mlynedd diwethaf yn olynol, ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynd ati i addasu trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau y gallem fodloni'r galw heb beryglu ansawdd nac annibyniaeth.

Fe wnaethon ni gryfhau ein ffocws ar reoli llwyth achosion yn rhagweithiol a thargedu ein hadnoddau lle gallent wneud y gwahaniaeth mwyaf. O ganlyniad, fe wnaethom ragori ar ein holl ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) o ran amseroldeb, er gwaethaf y twf parhaus yn nifer yr achosion a ddygwyd atom. Gwnaethom hefyd welliannau ystyrlon i broffil oedran yr achosion rydym yn ymdrin â nhw, gyda 93% o gwynion o dan 6 mis oed a dim achosion dros 12 mis oed, gan ddangos mwy o gysondeb a rheolaeth ar draws cylch oes cwyn.

Ochr-yn-ochr â hyn, cynyddwyd nifer y cwynion y llwyddom i'w cau'n sylweddol, gan ddod â 4,016 o gwynion i ben, 10% yn fwy nag yn 2024. Gostyngodd ein hamser cyfartalog i gau achos i 81 diwrnod, o'i gymharu ag 82 diwrnod y llynedd a 125 yn 2023. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu gwelliannau bwriadol i brosesau, gwell defnydd o ddata a systemau digidol, ac ymrwymiad parhaus ein staff i ddarparu gwasanaeth amserol a hygyrch, hyd yn oed wrth i lwythi achosion gynyddu.

Mae'r canlyniadau hyn nid yn unig yn dangos gwydnwch gweithredol ond hefyd esblygiad parhaus y sefydliad, gan addasu i'r galw cynyddol, mireinio ein dull o ran amseroldeb ac ansawdd, a sicrhau bod ein penderfyniadau'n parhau i fod yn gadarn, yn deg ac yn hygyrch i'r myfyrwyr sy'n dibynnu arnynt.

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn darparu gwasanaeth amserol, gan ymateb yn brydlon i ymholiadau, rhoi gwybod i fyfyrwyr cyn gynted â phosibl a allwn ni roi sylw i'w cwyn, a datrys cwynion cyn gynted â phosibl. | Dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer amseroldeb ein proses trin achosion:<br>• Ymateb i 95% o ymholiadau o fewn dau ddiwrnod gwaith.<br>• Gwneud 90% o benderfyniadau ynghylch cymhwysedd (neu ofyn am ragor o wybodaeth) o fewn 10 diwrnod gwaith.<br>• Cau 75% o achosion o fewn chwe mis i'w derbyn. | Llwyddom i ragori ar ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb ein proses ymdrin ag achosion:<br>• Ymatebwyd i 98% o ymholiadau o fewn dau ddiwrnod gwaith.<br>• Gwnaed 95% o benderfyniadau ynghylch cymhwysedd (neu gofynnwyd am ragor o wybodaeth) o fewn 10 diwrnod gwaith.<br>• Fe wnaethon ni gau 93% o achosion o fewn chwe mis i'w derbyn. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn defnyddio mecanweithiau sicrhau ansawdd sy'n seiliedig ar risg ac yn gymesur i werthuso ansawdd ein prosesau a'n penderfyniadau, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwn i wella'r hyn a wnawn. | Monitro ansawdd ein penderfyniadau a defnyddio'r hyn a ddysgwyd ar gyfer datblygiad parhaus ein dull o drin achosion.<br>Edrych eto ar ein prosesau ar gyfer gwaith ar achosion i nodi a gweithredu gwelliannau pellach. | Fe wnaethon ni barhau i fonitro ansawdd trwy wahanol fecanweithiau, dan oruchwyliaeth ein Grŵp Ansawdd Gwaith Achos.<br>Defnyddiom yr hyn a ddysgwyd o sicrhau ansawdd i lywio datblygiad parhaus ein gwaith achos ac i wella a diweddaru canllawiau ar gyfer y rhai sy'n ymdrin ag achosion.<br>Rydym wedi parhau i adolygu a datblygu ein hadnoddau ar gyfer ymdrin ag achosion. Sefydlwyd offer adrodd ychwanegol i helpu â sicrhau cywirdeb data ac i wella amseroldeb ein data. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn datblygu ein prosesau a'n systemau ymhellach i ddarparu gwasanaeth hygyrch a chynhwysol i fyfyrwyr a darparwyr. | Ymdrin ag achosion mewn ffordd sy'n ymatebol i anghenion y myfyriwr unigol a natur yr achos.<br><br>Cynorthwyo'r rhai sy'n ymdrin ag achosion i fabwysiadu dull cymesur o ymdrin â phob achos unigol ac i ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl. | Dalwyd ati i fabwysiadu dull hyblyg o ymdrin ag anghenion myfyrwyr, yn enwedig y rhai nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan ein dull arferol o weithredu.<br><br>Fe wnaethon ni hefyd fabwysiadu dull newydd o helpu myfyrwyr i ddeall eu contract ymddygiadol gyda SDA trwy bolisi wedi'i ddiweddaru.<br><br>Buom yn edrych am gyfleoedd i ddatrys achosion yn gynnar. Adeiladwyd ar yr hyn a ddysgwyd o fentrau blaenorol a newydd i wneud gwelliannau pellach i'n prosesau ar gyfer ymdrin ag achosion.<br><br>Buom yn gwrando ar brofiadau staff trwy ein hadolygiad mewnol dan arweiniad allanol o hygyrchedd a chynhwysiant y Cynllun gyda chyfleoedd i drafod yn dilyn hynny. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn chwilio am gyfleoedd i setlo achosion pryd bynnag y bo hynny'n briodol. | Ceisio setlo achosion lle byddai hyn yn ganlyniad rhesymol a realistig, gan gyrraedd ein DPA o setlo 10% o'n hachosion. | Rydym wedi ceisio setlo achosion lle'r oeddem yn meddwl mai dyna'r ffordd orau o ddatrys y gŵyn. Fe lwyddon ni i setlo 13% o achosion, gan ragori ar ein DPA. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn parhau i ddatblygu sgiliau'r rhai sy'n ymdrin ag achosion. | Darparu cefnogaeth a hyfforddiant i drinwyr achosion fel eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i adolygu pob achos a ddyrennir iddynt yn effeithiol ac yn ddiduedd. | Rydym wedi cynorthwyo â datblygiad parhaus sgiliau a gwybodaeth ein trinwyr achosion trwy raglen fewnol o sesiynau dan arweiniad y rhai sy'n ymdrin ag achosion.<br><br>Fe wnaethon ni hefyd gychwyn ar raglen eang o weithgareddau i ddatblygu cymwyseddau craidd ar gyfer trin achosion. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Byddwn yn adeiladu ar ein gallu i roi adborth ar ddysgu o gwynion i'r sector, er mwyn hyrwyddo arfer da a gwelliant. | Datblygu ein strategaeth i ganolbwyntio ar gyflawni effaith i fyfyrwyr a'r sector ehangach.<br><br>Gwella ein systemau ar gyfer canfod, cofnodi ac adrodd ar y ffactorau sy'n arwain at gwynion. | Datblygwyd Strategaeth Ymgysylltu, Effaith a Gwelliant i'n helpu i flaenoriaethu'r gweithgareddau sydd fwyaf effeithiol wrth dargedu mynediad gwell i fyfyrwyr at brosesau teg a gwella'r diwylliant ar gyfer dysgu o gwynion.<br><br>Fe ddechreuon ni adeiladu offer adrodd newydd i'n helpu wrth nodi tueddiadau a phroblemau systemig yn gyflym yn y cwynion a dderbyniwn. |

## Blaenoriaeth 2:

# Ein nod oedd cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

Yn 2025 fe wnaethon ni barhau i esblygu ein harfer da a'n gwaith allgymorth, gan gryfhau ei gyrhaeddiad, ei berthnasedd a'i effaith ar draws y sector. Wrth i'r amgylchedd gweithredu i ddarparwyr a myfyrwyr ddod yn fwy cymhleth, mae rôl canllawiau ymarferol ac amserol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth dda yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Ein ffocws eleni fu sicrhau bod y dysgu sy'n deillio o'n gwaith ar achosion yn cael ei drosi'n gefnogaeth sy'n hygyrch, wedi'i thargedu, ac yn wirioneddol ddefnyddiol i'r rhai sydd ei hangen.

Fe wnaethon ni ddyfnhau ein dull gwerthuso, gan gyflwyno ffyrdd newydd o fonitro effeithiolrwydd ein gweithgaredd arfer da ac i ddeall yn gliriach sut mae'n dylanwadu ar bolisïau, prosesau ac ymddygiadau ar draws addysg uwch. Ein nod o hyd yw sicrhau bod ein hallbynnau arfer da yn cyrraedd pob sefydliad a rhanddeiliad a all elwa ohonynt, a'u bod yn gallu defnyddio ein mewnwelediadau mewn ffyrdd sy'n gymesur, yn ymarferol ac wedi'u halinio â'u cyd-destunau lleol.

Trwy gydol y flwyddyn, buom yn ymwneud yn weithredol â'r materion sydd bwysicaf i ddarparwyr a myfyrwyr. Dangosodd ein gwaith gyda SUMS Consulting yr angen parhaus am ffocws polisi wrth ymateb i ddarparwyr mewn trallod ac sy'n wynebu'r posibilrwydd o ymadael â'r farchnad. Trwy wrando'n ofalus ar amrywiaeth o brofiadau, mewn gweithdai, digwyddiadau, trafodaethau gwaith achos a sgyrsiau uniongyrchol, roeddem yn gallu nodi themâu a meysydd risg sy'n dod i'r amlwg yn gynharach ac yn gliriach. Ffurfiodd hyn sail i ddatblygiad canllawiau arfer da newydd a diweddaru deunydd oedd yn bodoli eisoes, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn realiti cwynion myfyrwyr a'r heriau ehangach sy'n wynebu'r sector. Fe wnaethon ni hefyd barhau i weithio'n agos gyda darparwyr Cymru i feithrin dealltwriaeth gliriach o'u hanghenion, yng ngoleuni'r posibilrwydd y bydd ein gwaith yn datblygu i addysg bellach yng Nghymru. Roedd datblygu canllawiau i ddarparwyr ynghylch ymateb i adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol yn flaenoriaeth arall. Fe wnaethon ni dynnu ar ein profiad o waith ar achosion ac ar wybodaeth arbenigwyr sy'n gweithio ar draws y sector i atgyfnerthu ac adeiladu ar ganllawiau sy'n bodoli eisoes.

Wrth i nifer a chymhlethdod achosion barhau i dyfu, mae ein gwaith arfer da ac allgymorth yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi tegwch ar draws y sector; nid dim ond trwy ddatrys cwynion, ond trwy helpu i'w hatal. Yn 2025, datblygodd y gwaith hwn o ran cwmpas a chymhlethdod, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfaen hon yn y flwyddyn sydd i ddod.

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn sefydlu perthnasoedd newydd, yn adeiladu ar berthnasoedd sy'n dod i'r amlwg, yn cynnal, yn dyfnhau ac yn cryfhau perthnasoedd sy'n bodoli eisoes – er mwyn cynnal a gwella ein gallu i ddylanwadu. | Ymgysylltu â meddwl gwleidyddol a datblygu polisïau mewn meysydd sy'n berthnasol i'n gwaith, yn ogystal â chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda swyddogion.<br><br>Gweithio gyda'r Swyddfa Myfyrwyr (OfS), Medr, rheoleiddwyr eraill a Chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs) fel bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl yr angen, ac rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau perthnasol ynghylch eu ffrydiau gwaith.<br><br>Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn trafodaethau sy'n berthnasol i'n gwaith, gan gynnwys gyda'r Adran Addysg (DfE), Llywodraeth Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cyngor Ansawdd y DU, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br><br>Parhau i ddatblygu ein rhaglen allgymorth a'r adnoddau sydd ar gael ar ein gwefan ar gyfer darparwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr ac eraill. Rydym yn defnyddio adborth gan gyfranogwyr a'n hymgysylltiad ehangach ynghyd â mewnwelediad o'n gwaith achos fel sail i'r pynciau rydym yn eu cwmpasu a'r ffordd yr ydym yn eu cyflwyno. Rydym yn manteisio ar gyfleoedd eraill i rannu'r hyn a ddysgwyd o gwynion, er enghraifft trwy gyfrannu at ddigwyddiadau sector.<br><br>*(parhau)* | Cawsom gyfarfodydd rheolaidd trwy gydol 2025 gydag uwch swyddogion o Gymru a Lloegr i rannu gwybodaeth am gynlluniau cyfredol a chynlluniau at y dyfodol.<br><br>Roedden ni'n canolbwyntio ar gynaladwyedd ariannol, gyda'r Adran Addysg yn ystyried ein pryderon ynghylch cymorth i fyfyrwyr mewn sefyllfaoedd lle mae eu sefydliad mewn perygl o adael y farchnad.<br><br>Cawsom sawl cyfarfod gyda Medr i drafod y dirwedd sy'n newid yng Nghymru. Rydyn ni wedi cael cyfarfodydd allweddol gyda Cholegau Cymru a phenaethiaid colegau.<br><br>Rydyn ni wedi cyfarfod yn rheolaidd â'r Swyddfa Myfyrwyr ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys Amodau Cofrestru newydd, rhyddid i lefaru, diogelu defnyddwyr, a chynaladwyedd ariannol.<br><br>Rydym wedi cyfarfod â nifer o PSBRs a rhanddeiliaid gan gynnwys HCPC, NMC, GMC a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.<br><br>Rydym wedi bod yn rhan o Dasglu Iechyd Meddwl Myfyrwyr yr Adran Addysg a'r grŵp partneriaeth Ymrwymiad Myfyrwyr Anabl.<br><br>Rydym wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau sector trwy gydol y flwyddyn, gan godi ymwybyddiaeth o arfer da wrth ymdrin â chwynion gydag arweinwyr strategol, trinwyr cwynion gweithredol, a rolau ehangach gan gynnwys marchnata, ystadau a diogelwch, a phroffesiynwyr llesiant myfyrwyr.<br><br>*(parhau)* |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| | Gweithio gyda'r llywodraethau ac eraill i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth a gweithrediad yn ystyried yr effaith ar fyfyrwyr unigol ac yn cau unrhyw fylchau o ran y myfyrwyr sy'n cael mynediad at y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar unrhyw weithrediad o Ddeddf Addysg Uwch (Rhyddid i Lefaru) 2023 ac unrhyw Bapur Gwyn arall neu ddeddfwriaeth a ddygwyd ymlaen.<br><br>Ymgysylltu â darparwyr sy'n gyfrifol am nifer uwch o gwynion at SDA i archwilio ffyrdd mwy effeithiol o nodi a rhannu dysgu o gwynion.<br><br>Ymgysylltu â darparwyr sydd â lefel isel o ymgysylltiad uniongyrchol â ni i sicrhau bod ein gwaith arfer da o fudd i'r aelodau hyn a'u myfyrwyr.<br><br>Ceisio cyfleoedd i nodi arfer da mewn darparwyr a all lywio ein gwaith ar achosion. | Fe wnaethon ni gynnal 11 o weminarau a fynychwyd gan fwy na 1,000 o gynrychiolwyr, ynghyd â dau weithdy ar gyfer cyrff cynrychioli myfyrwyr. Cynhaliwyd 25 o grwpiau trafod ar-lein ar gyfer darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr, a phump ar gyfer myfyrwyr. Fe wnaethon ni ymweld â 18 o ddarparwyr a'u cyrff cynrychioli myfyrwyr.<br><br>Nodwyd detholiad o ddarparwyr nad ydyn nhw'n ymgysylltu â ni'n rheolaidd gan agor deialog ynghylch sut y gallai eu harferion trin cwynion fod yn wahanol i ddarparwyr sy'n gyfrifol am nifer uwch o gwynion. Fe wnaethon ni hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol â'u cyrff cynrychioli myfyrwyr i elwa o'u safbwyntiau ac i godi ymwybyddiaeth am ein rôl a'n hadnoddau.<br><br>Dechreuwyd prosiect i ymgysylltu'n fwy rheolaidd â darparwyr sy'n gyfrifol am nifer uwch o gwynion at SDA, ynghyd â'u cyrff cynrychioli myfyrwyr, i archwilio beth yw'r ffactorau sy'n sbarduno cwynion a sut y gall y rhain amrywio ar draws y sector. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn defnyddio themâu, tueddiadau ac enghreifftiau o waith ar achosion sy'n datblygu i esbonio materion a all wella profiadau myfyrwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth lle'r ydym yn nodi'r angen mwyaf am newid neu'r posibilrwydd mwyaf o greu effaith. | Cyhoeddi gwybodaeth am ein dull gweithredu a dysgu o'r cwynion a welwn, er enghraifft mewn nodiadau a chrynodebau o waith ar achosion. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gwaith ar achosion â sefydliadau eraill sy'n gweithio ar feysydd blaenoriaeth.<br><br>Ymgynghori â myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, darparwyr, a rhanddeiliaid perthnasol eraill ynghylch adran newydd o'r Fframwaith Arfer Da: Ymdrin â chwynion am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. | Cyhoeddwyd nodiadau a chrynodebau o waith ar achosion o gwynion am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol ym mis Chwefror, deallusrwydd artiffisial a chamymddwyn academaidd ym mis Gorffennaf, a chrynodebau diffyg cydymffurfio a budd y cyhoedd yng nghyd-destun diogelu myfyrwyr ym mis Tachwedd. Yn ein Hadroddiad Blynyddol, tynnwyd sylw at gwynion gan fyfyrwyr anabl.<br><br>Ym mis Tachwedd cyhoeddwyd ymgynghoriad ar adran newydd o'r Fframwaith Arfer Da ynghylch ymdrin ag adroddiadau am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn parhau i ymateb i fylchau mewn diogelu myfyrwyr, gan fynd ar drywydd cyfleoedd i ehangu aelodaeth lle mae hyn er budd myfyrwyr. | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Medr i gynorthwyo â'r symudiad i system drydyddol integredig trwy baratoi SDA a darparwyr ar gyfer y symudiad tuag at adolygu cwynion gan fyfyrwyr AB yn annibynnol. Rydym yn gweithio gyda Medr wrth iddynt sefydlu eu gofynion o ran ymdrin â chwynion, ac yn dilyn cyfathrebiad gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod prosesau angenrheidiol ar waith ac i wella ein dealltwriaeth o'r sector trydyddol yng Nghymru.<br><br>Wrth gynllunio ar gyfer yr Hawl Dysgu Gydol Oes a mentrau eraill, rydym yn parhau i geisio sicrhau bod gan bob myfyriwr fynediad at ddatrysiad annibynnol. Bydd hyn hefyd yn gofyn am weithio'n agos gyda'r Swyddfa Myfyrwyr. Rydym yn parhau i dynnu sylw at anghysondebau o ran diogelu myfyrwyr sy'n astudio mewn aelodau lle nad yw'r sefydliad dyfarnu yn aelod, yn ogystal â myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cyrsiau eraill, gan gynnwys cyrsiau islaw lefel 4, nad oes ganddynt fynediad at ddatrysiad annibynnol. | Fe wnaethon ni barhau i gyfarfod â Llywodraeth Cymru a Medr, ac rydym yn gweithio trwy'r broses ar gyfer gosod rheoliadau yn ogystal ag alinio ag amserlen weithredu Medr.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â'r Adran Addysg (DfE) a'r Swyddfa Myfyrwyr (OfS) ar gynlluniau ynghylch darparwyr trwy gynlluniau rhyddfraint.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr unigol sy'n cau, gan gynnwys lle mae corff dyfarnu a rheoleiddir gan Ofqual yn ymwneud â'r broses. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r DfE a'r OfS ynghylch effaith trefniant o'r fath ar fyfyrwyr, a thrwy ein Hadroddiad Blynyddol a chyhoeddi achosion Buddiant Cyhoeddus, rydym yn parhau i dynnu sylw at fylchau mewn cwynion yn achos myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster gan sefydliad dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual trwy aelod o SDA. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn sicrhau y gallem gynnig safbwyntiau annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion sydd o fudd i'r sector, yn ôl yr angen yn unol â blaenoriaethau sy'n newid wrth i faterion sy'n dod i'r amlwg effeithio ar fyfyrwyr. | Dod â'n persbectif unigryw, gan dynnu ar yr hyn a ddysgwn o adolygu cwynion, i ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys y rhai sy'n cael eu datblygu a fydd yn cael effaith ar ein Cynllun.<br><br>Parhau â'n gwaith sy'n canolbwyntio ar effaith ar fyfyrwyr unigol pan fod darparwyr yn cau, boed hynny'n gau cwrs neu gampws, neu pan fo'r sefydliad yn ymadael â'r farchnad. Bydd hyn yn helpu wrth ystyried deilliannau gwell i fyfyrwyr unigol lle bo'n bosibl, a bydd yn lliniaru'r risg y bydd SDA yn derbyn cwynion lle nad oes llawer o opsiwn o ran datrysiad. Bydd hyn yn cynnwys:<br><br>• Gweithio gyda SUMS Consulting i ddynodi a rhannu arferion effeithiol a fydd o gymorth i ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr wrth ymdopi ag amgylchiadau ariannol heriol gyda ffocws penodol ar liniaru'r effaith ar fyfyrwyr.<br><br>• Cynnig ein harbenigedd a gweithio gyda'r llywodraethau ac eraill i ystyried atebion posibl i fyfyrwyr nad oes ganddynt efallai unrhyw ddatrysiad ar ôl i'w sefydliad adael y farchnad. Mae hyn yn cynnwys datblygu ein syniad o gronfa ar gyfer myfyrwyr yr effeithir arnynt, rhyw fath o gynllun yswiriant neu newid yn y ddeddfwriaeth ar gyfer darparwyr sy'n mynd yn fethdalwyr, sy'n blaenoriaethu myfyrwyr.<br><br>• Gweithio gyda darparwyr unigol a allai fod yn ystyried cau cyrsiau neu gampysau i sicrhau eu bod wedi ystyried yr hyn a ddysgwyd ac arfer da, a'u bod yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol pan fo gofyn iddynt wneud hynny. | Rydym wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau yn y sector trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Côd Llywodraethiant Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC), ymgynghoriad Medr ar y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol ac wedi darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Addysg Uwch. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd bwrdd-crwn a thasgluoedd perthnasol gan gynnwys y Tasglu Iechyd Meddwl.<br><br>Cyhoeddwyd canlyniad ein gwaith gyda SUMS Consulting "Rhoi myfyrwyr yn gyntaf: Rheoli effaith cau darparwyr addysg uwch" ym mis Gorffennaf. Cafodd y cyhoeddiad dderbyniad cadarnhaol, a gofynnwyd i ni siarad ochr-yn-ochr â SUMS mewn sawl digwyddiad am ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Nododd yr adroddiad fewnwelediadau a gwersi ar arferion effeithiol ac aneffeithiol mewn perthynas ag ymadael â'r farchnad, yn deillio o gyfweliadau ansoddol a thrafodaethau grŵp â thua 40 o unigolion arbenigol. Roedd cyfranogwyr yn yr astudiaeth yn cynnwys cyrff sector a sefydliadau aelodaeth, ymgynghorwyr ailstrwythuro, cynghorwyr cyfreithiol, cynrychiolwyr myfyrwyr, arweinwyr a rheolwyr blaenorol a chyfredol â phrofiad o sefydliadau'n cau (hynny yw, o ddarparwyr yn cau, derbyn darparwyr a dilysu partneriaid). Darparodd cydweithwyr o SDA ac o Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) fewnwelediadau defnyddiol hefyd trwy gymryd rhan mewn grŵp llywio bach i arwain yr ymchwil drwyddo draw.<br><br>Ymgysylltwyd â nifer o ddarparwyr a allai fod mewn perygl o orfod dirwyn i ben yn y dyfodol i fwydo i'n gwaith achos a hyrwyddo arfer da.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â'r OfS i fod yn ymwybodol o ddarparwyr a allai fod mewn perygl o gau ar gyflymder. |

## Blaenoriaeth 3:

**Ein nod oedd gwella ansawdd ein tystiolaeth, o ran data a mewnwelediad, er mwyn gwella perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd dylanwadu.**

Daw rhan allweddol o'n gwerth i fyfyrwyr, darparwyr a lles y cyhoedd yn ehangach o'r dystiolaeth sydd gennym: y patrymau o ran pwy sy'n dod atom ni, y materion maen nhw'n eu codi, a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am degwch mewn addysg uwch. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'n systemau, ein data a'n gallu dadansoddol fod yn gadarn, yn hyblyg ac yn addas ar gyfer amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Felly, mae llawer o'n ffocws eleni wedi bod ar gryfhau ein sylfaen dystiolaeth, gan sicrhau bod ein data yn gywir, yn gyson, yn hygyrch ac yn gallu cynorthwyo mewnwelediad dyfnach.

Ddwy flynedd ar ôl sefydlu Microsoft Dynamics fel ein system trin achosion, 2025 oedd yr amser iawn i asesu ble rydyn ni. Fe wnaethon ni adolygu sut mae'r system yn gweithio i gydweithwyr a pha mor dda y mae'n cefnogi ein hanghenion, nawr ac wrth i ni ddechrau cynllunio gwelliannau yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio ein strwythurau data o ddau safbwynt: ansawdd yr allbynnau a gynhyrchwn, a phrofiad y staff sy'n defnyddio'r system bob dydd. Trwy'r gwaith hwn, nodwyd bylchau, dyblygu, anghysondebau a chyfleoedd i symleiddio prosesau. Fe wnaethon ni hefyd geisio adborth gan staff trwy arolwg mewnol a roddodd ddealltwriaeth gliriach i ni o ble byddai newidiadau'n ychwanegu'r gwerth mwyaf i drinwyr achosion a thimau.

Ochr-yn-ochr â hyn, fe wnaethom foderneiddio ein seilwaith adrodd. Mae'r camau hyn wedi cryfhau ein diogelwch, gwella perfformiad, ehangu ymarferoldeb adrodd, a diogelu ein hoffer craidd ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae gan gydweithwyr bellach fynediad mwy dibynadwy at ddata, gan alluogi dadansoddiad manylach a gwneud penderfyniadau gweithredol gwell.

Mae ein sylfaen dystiolaeth gynyddol wedi parhau i'n helpu i ddeall tueddiadau o ran pwy sy'n cwyno wrthym a'r materion maen nhw'n eu codi. Eleni, rydym wedi dechrau archwilio sut y gallwn ddod â data cyd-destunol allanol i mewn i ddyfnhau'r ddealltwriaeth hon ymhellach. Wrth i'n gallu dadansoddol wella, rydym mewn gwell sefyllfa i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg yn gynharach, darparu mewnwelediad mwy perthnasol, a chefnogi trafodaeth ar draws y sefydliad ynghylch beth mae hyn yn ei olygu o ran ansawdd, amseroldeb a thegwch ein gwasanaeth.

Fe wnaethon ni hefyd barhau i fuddsoddi mewn meithrin hyder yn ein data ar draws y sefydliad. Mae mewnbynnu data cywir a chyson bellach wedi'i wreiddio'n fwy cadarn o fewn safonau ansawdd gwaith achos, ac rydym wedi datblygu adnoddau newydd i gynorthwyo cydweithwyr i gofnodi gwybodaeth yn effeithiol.

Ar draws ein rolau sy'n canolbwyntio ar ddata, rydym wedi cynnal ymwybyddiaeth o arfer gorau ac wedi archwilio offer a thechnolegau newydd, gan gynnwys dulliau deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i'r dirwedd ddigidol sy'n newid yn gyflym.

Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn cryfhau dibynadwyedd a hyblygrwydd y dystiolaeth sydd gennym. Maent yn ein paratoi'n well i gadarnhau ein data, gofyn cwestiynau mwy ystyrlon am risgiau a themâu sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau bod ein mewnwelediadau, boed yn cael eu defnyddio'n fewnol neu'n cael eu rhannu'n allanol, yn parhau i fod wedi'u seilio ar wybodaeth o ansawdd uchel.

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn cynnal archwiliad o'r data rydyn ni'n ei gynhyrchu am gwynion myfyrwyr i nodi bylchau, dyblygu, a photensial ar gyfer mwy o ymarferoldeb. | Ddwy flynedd ers sefydlu Microsoft Dynamics fel ein system trin achosion, roedd yn gyfle amserol i adolygu sut y bydd yn parhau i'n cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion.<br>Archwilio gweithrediad ein system a'n prosesau trwy lens allbynnau gan ystyried cysondeb, cywirdeb a dibynadwyedd y data a gaiff ei gasglu. Rydym yn nodi bylchau ac unrhyw agweddau ar ein data sy'n ddiangen. Rydym yn nodi meysydd i'w gwella ac yn datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain.<br>Archwilio ein systemau a'n prosesau trwy lens profiad y defnyddiwr. Rydym yn nodi cyfleoedd i symleiddio ein prosesau cipio data i gynorthwyo ymdrin ag achosion yn effeithlon ac yn effeithiol. | Fe wnaethon ni gwblhau arolwg staff mewnol o Dynamics – sut mae'n gweithio i unigolion a thimau, beth sydd ddim yn gweithio cystal, ac awgrymiadau ynghylch yr hyn y gallem ei wneud i'w wella. Bydd yr adborth yn helpu i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Symudwyd ein datrysiad adrodd o weinyddion SQL i'r system Microsoft Synapse newydd sy'n seiliedig ar y cwmwl, gan wella opsiynau adrodd ac argaeledd ar draws y sefydliad, cynyddu diogelwch a gwella ein cyfleusterau adrodd craidd ar gyfer y dyfodol.<br>Mae ein system Dynamics wedi parhau i gynorthwyo â'r dadansoddiad o dueddiadau a themâu o ran pwy sy'n cwyno wrthym ni a beth maen nhw'n cwyno amdano. Rydym wedi dechrau ystyried sut y gallwn ddefnyddio data arall i roi cyd-destun mwy ystyrlon i'n dadansoddiad. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn parhau i dyfu ein capasiti a'n galluoedd mewn dadansoddi data. | Integreiddio cofnodi data cywir mewn safonau ansawdd ar gyfer gwaith achos.<br>Datblygu hyfforddiant ac adnoddau i gynorthwyo'r holl staff wrth fewnbynnu data ac wrth ddefnyddio offer adrodd.<br>Cynnal y wybodaeth ddiweddaraf am offer ac arfer gorau o fewn rolau sy'n canolbwyntio ar ddata, gan gynnwys ymgysylltu â thechnoleg deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg. | Rydym wedi datblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer staff i hwyluso mewnbynnu data mwy cywir a meithrin hyder staff ynghylch dewis yr opsiynau cywir o fewn ein systemau. Bydd ein ffocws ar gywirdeb yn parhau yn 2026 ac yn ein galluogi i nodi patrymau yn gyflymach.<br>Mae ymchwiliadau i dechnolegau AI addas ar y gweill, yn benodol Microsoft CoPilot. Mae mynediad at offer AI masnachol heb eu diogelu wedi'i gyfyngu i sicrhau bod ein data'n parhau i fod yn ddiogel. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn cynnal archwiliad o'r data a'r wybodaeth o ffynonellau allanol rydyn ni'n eu defnyddio i lywio ein gwaith. | Gwerthuso'r ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwn ac ystyried a ydynt yn parhau i ddiwallu ein hanghenion data. Rydym yn archwilio a yw unrhyw newidiadau diweddar yng nghylchoedd gwaith a methodolegau'r sefydliadau sy'n casglu'r data yn cael effaith barhaus ar ein defnydd o'r data hwn.<br><br>Nodi unrhyw feysydd lle nad yw ein hanghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu gan y data sydd ar gael i ni ar hyn o bryd ac archwilio dewisiadau eraill lle bo'n briodol. Rydym yn ystyried a oes ffyrdd newydd o ddefnyddio data allanol sy'n bodoli eisoes i roi'r wybodaeth a gynhyrchir gennym mewn cyd-destun ac i helpu â'n cynllunio sefydliadol. | Rydym yn archwilio mynediad ychwanegol at setiau data sy'n bodoli eisoes yn y sector er mwyn rhoi cyd-destun gwell i'n gwybodaeth. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddio gwybodaeth. | Cwblhau gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd yn y dadansoddiad o'r bylchau o ran cydymffurfiaeth â rheolau diogelu data.<br><br>Ymwneud ag unrhyw newidiadau i arfer sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd ar gyfer diogelu data.<br><br>Cadw golwg ar weithrediad Deddf Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol a Defnyddwyr 2024 a'i heffaith ar ein rôl fel corff datrys anghydfodau amgen cymeradwy. | Fe wnaethon ni gymryd camau i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd yn y dadansoddiad bylchau a gwblhawyd gan arbenigwr allanol. Rydym wedi diweddaru ein Cofnod o Weithgareddau Prosesu, a'n holl Asesiadau Effaith Preifatrwydd Data, Asesiadau Effaith Cyfreithlon a dogfennau polisi priodol. Mae ein staff wedi mynychu sesiynau hyfforddi ynglŷn ag effaith Deddf Defnyddio a Mynediad at Ddata 2025.<br><br>Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) ynghylch ein rôl fel corff datrys anghydfodau amgen cymeradwy, gan gyflawni canlyniad o "gydymffurfio'n llawn" yn ein harchwiliad ym mis Tachwedd. |

## Blaenoriaeth 4:

# Ein nod oedd cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein dull un-sefydliad a'i gryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

Yn 2025, fe wnaethom barhau i ymgorffori ein gwerthoedd ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan gryfhau diwylliant dysgu sy'n edrych tua'r dyfodol ac yn ymatebol ac sy'n cefnogi perfformiad uchel wrth barhau i fod yn gynhwysol, yn amrywiol, ac yn canolbwyntio ar lesiant. Wrth i'n cylch gwaith a'n llwyth achosion dyfu, rydym wedi rhoi pwyslais cynyddol ar helpu cydweithwyr i ddeall y cyd-destun sefydliadol ehangach yr ydym yn gweithredu ynddo a'r cyfraniad y mae pob un ohonynt yn ei wneud at ddarparu cynllun teg, annibynnol a hygyrch i fyfyrwyr.

Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar adeiladu diwylliant sy'n agored i ddysgu ac addasu, gan gydnabod bod yr amgylchedd rydym yn gweithio ynddo yn newid yn gyflym. Trwy gyfathrebu cliriach, cyfleoedd datblygu mwy strwythuredig a mwy o gydlyniad ar draws timau, cafodd cydweithwyr bob cefnogaeth i deimlo'n hyderus, yn wybodus ac yn gysylltiedig â'n cyfeiriad strategol.

Rydym wedi parhau i adolygu capasiti'n ofalus ar draws y sefydliad, gan sicrhau ein bod yn dal i fod mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion ein cylch gwaith, nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys asesu nid yn unig maint ein gweithlu ond hefyd y sgiliau, y rolau a'r strwythurau sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol i nifer cynyddol o achosion, anghenion myfyrwyr sy'n esblygu a disgwyliadau ehangach rhanddeiliaid.

Mae datblygiad ein seilwaith sefydliadol wedi parhau i fod yn faes ffocws allweddol. Rydym wedi gwneud cynnydd pellach o ran gwella'r systemau, y galluoedd digidol a'r prosesau mewnol sy'n sail i'n swyddogaethau craidd, gan gydnabod bod seilwaith cryf yn hanfodol i gynnal ansawdd, amseroldeb a hygyrchedd wrth i'r galw gynyddu. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn hybu cysondeb a gwydnwch ar draws y sefydliad, ac yn ein helpu i weithio'n fwy effeithlon wrth gynnal yr annibyniaeth a'r gofal sy'n diffinio ein gwasanaeth.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dyfu fel sefydliad mewn ffyrdd sy'n cryfhau ein pobl, ein diwylliant a'r egwyddorion sy'n sylfaen i'n gwaith. Maen nhw'n sicrhau ein bod ni'n parhau i fod â'r gallu i gyflawni ein pwrpas elusennol a pharhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fyfyrwyr a'r sector mewn tirwedd gynyddol gymhleth.

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
|---|---|---|
| Fe ddwedon ni y byddem yn cymryd y cam nesaf wrth ddatblygu ein harweinyddiaeth a'n tîm rheoli er mwyn ein gosod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. | Adolygu ein dull o arwain a rheoli. | Rydym wedi dechrau adeiladu'r sylfaen ar gyfer ein fframwaith cymhwysedd arweinyddiaeth a rheolaeth, gan ddewis safonau rheoli'r Sefydliad Rheoli Siartredig (CMI) fel sail i adeiladu arni. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn sefydlu nifer o fesurau a dangosyddion meincnod i gefnogi datblygiad parhaus y sefydliad a'n ffocws ar ddull sefydliad-cyfan i wneud y mwyaf o'n heffaith. | Adolygu'r ffordd rydym yn adrodd ar ein perfformiad a'n heffeithlonrwydd ac adnewyddu ein dangosyddion perfformiad allweddol.<br><br>Datblygu a gwella ein dull o reoli risg ymhellach.<br><br>Ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu ein dealltwriaeth o sut mae ein gwaith yn effeithio ar eraill. | Rydym wedi parhau i gynorthwyo cydweithwyr i gyflawni eu rolau. Mae staff wedi bod yn rhan o ffrydiau gwaith a flaenoriaethwyd, a chânt eu diweddaru'n rheolaidd,<br><br>Rydym wedi cymryd rhan mewn ystod eang o gynadleddau, digwyddiadau a fforymau eraill lle archwiliwyd ein gwaith gyda myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, a darparwyr.<br><br>Rydym wedi parhau i adolygu ac ymateb i gwynion am wasanaeth (cwynion am SDA ei hun).<br><br>Rydym yn mynd ati'n weithredol i geisio adborth ym mhob agwedd ar ein hymgysylltiad â darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr ynghylch yr hyn maen nhw'n ei werthfawrogi am SDA a pha newidiadau yr hoffent eu gweld. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn gweithio gyda'n pobl i hyrwyddo eu hymwneud parhaus â'r sefydliad a sicrhau sianeli priodol ar gyfer llais gweithwyr. | Gan adeiladu ar y wybodaeth o'n harolwg ymgysylltiad y gweithwyr diweddar a'n cytundeb cydnabyddiaeth newydd ag Undeb y GMB:<br>• Cryfhau llais gweithwyr i sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltiad dwy-ffordd ystyrlon.<br>• Gweithio ar ddatblygu ein systemau a'n fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu. | Rydym wedi cyflwyno fformat wedi'i adnewyddu ar gyfer Briffio gan yr Arweinyddiaeth, a gynhelir yn fisol ac a gynlluniwyd i rannu gwybodaeth allweddol.<br><br>Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu ein Pwyllgor Cydlynu Staff ochr-yn-ochr â gwaith o dan gytundeb cyfathrebu newydd y GMB.<br><br>Rydym yn gweithio gyda'n cynrychiolwyr mewnol yn y GMB i feithrin perthynas waith ymarferol a chydweithredol o fewn y cytundeb cydnabyddiaeth gwirfoddol. |

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud | Sut olwg oedd ar hyn | Sut wnaethom ni berfformio |
| --- | --- | --- |
| Fe ddwedon ni y byddem yn gweithredu ein strwythur llywodraethiant newydd yn llawn, gan gyflwyno trefniadau a fydd yn adlewyrchu ein haelodaeth estynedig ac yn cynnal hyder rhanddeiliaid yn ein llywodraethiant, yn ogystal â chryfhau ei effeithiolrwydd. | Recriwtio ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr i'r swyddi gwag ar ein Bwrdd, gan reoli hyn yn ofalus i gynorthwyo ag effeithiolrwydd llywodraethiant parhaus a sicrhau cyfranogiad aelodau ein Cwmni a rhanddeiliaid eraill. | Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cwblhau recriwtio ar gyfer aelodau o safbwynt y sector ac o safbwynt myfyrwyr i gyflenwi ein haelodau annibynnol (lleyg).<br><br>Ym mis Rhagfyr cynhaliom ymarfer effeithiolrwydd llywodraethiant. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn parhau i adolygu ein tanysgrifiadau i hyrwyddo cydbwysedd teg rhwng twf ac effeithlonrwydd wrth ymateb i'r nifer cynyddol o gwynion. | Cynnal ein costau fesul achos unigol ar oddeutu £1,700.<br><br>Adolygu'r cydbwysedd rhwng elfen graidd ac elfen achosion tanysgrifiadau yng ngoleuni'r newidiadau i drothwyon band. | Rydym wedi cynnal ein costau fesul uned o dan £1,700<br><br>Bu ein Bwrdd yn meddwl yn ddwys ynghylch y cydbwysedd rhwng yr elfen graidd a'r elfen achosion, fel eitem sylweddol â golwg tua'r dyfodol yn eu diwrnod cwrdd-i-ffwrdd blynyddol, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch tanysgrifiadau ar gyfer 2026, gan gynnwys cadw'r cynnydd craidd i 1%. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn cryfhau ein dull o ymdrin ag amrywioldeb a chynhwysiant. | Datblygu a gweithredu cynlluniau i wella ein hymagwedd at hyn. | Adolygwyd y wybodaeth ynghylch amrywioldeb sydd ar gael o'n platfform recriwtio i gael mewnwelediad data i benderfynu ble y gallai fod angen i ni addasu ein dull o weithredu, gan arwain at ddefnyddio offer recriwtio newydd.<br><br>Fe wnaethon ni ddadansoddi a chymharu ein data dienw ynghylch amrywioldeb staff a bwrdd yn erbyn data HESA a Chyfrifiad 2021. Yn ogystal, adolygwyd gwybodaeth am amrywioldeb yn rheolaidd o'n platfform recriwtio ac ymgyrchoedd recriwtio a arweiniwyd yn allanol. |
| Fe ddwedon ni y byddem yn gwneud paratoadau cynnar ar gyfer symud ein swyddfa. | Rydym wrthi'n adolygu ein hanghenion o ran adeilad yng nghyd-destun cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein harferion gwaith, ac rydym yn dechrau paratoadau ar gyfer symudiad arfaethedig yn 2025. | Fe gytunon ni ar brydles 10 mlynedd ar gyfer ein swyddfeydd newydd, gan symud i'r adeilad newydd yng Ngwanwyn 2025. Mae hyn yn darparu gweithle o safon a diogelwch hirdymor heb gynyddu costau. |

swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

# Adroddiad Gweithredu
2025

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch**

OIA,
Blwch Post 3362,
Reading RG1 9UF

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 04823842
Rhif Cofrestru'r Elusen: 1141289